# ATODLENNI

## ATODLEN 1

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall

## RHAN 3

### Y Bleidlais mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

Darpariaethau Cyffredinol

**Y bleidlais i'w chynnal drwy bleidlais gudd**

**21.**—(1) Rhaid i'r pleidleisiau yn y bleidlais gael eu rhoi drwy bleidlais gudd.

(2) Rhaid canfod y canlyniad yn unol â Rhan 4 (cyfrif y pleidleisiau).

**Y papurau pleidleisio**

**22.**—(1) Rhaid i bleidlais gudd pob pleidleisiwr fod yn bapur pleidleisio.

(2) Yr unig bersonau sydd â hawl i gael eu henwau wedi eu gosod ar y papur pleidleisio yw'r rhai sy'n dal wedi eu henwebu'n ddilys ar gyfer y ward etholiadol ar ôl i unrhyw un neu ragor dynnu'n ôl o dan reol 12.

(3) Rhaid i bapur pleidleisio—

(a) bod yn y ffurf yn Atodiad 2, a

(b) bod wedi ei argraffu yn unol â'r cyfarwyddydau yn yr Atodiad hwnnw.

(4) Rhaid i'r papur pleidleisio—

(a) cynnwys enwau a disgrifiadau (os oes rhai) yr ymgeiswyr a'r wybodaeth am eu cyfeiriad cartref, fel y'u dangoswyd yn y datganiad o'r personau a enwebwyd,

(b) gallu cael ei blygu, a

(c) bod â rhif a marc adnabod unigryw arall wedi eu hargraffu ar y cefn.

(5) Ar gais ymgeisydd sydd wedi ei awdurdodi o dan reol 6(3)(c) i ddefnyddio disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig, rhaid i'r papur pleidleisio gynnwys, gyferbyn â manylion yr ymgeisydd, un arwyddlun cofrestredig i'r blaid.

(6) Ar gais ymgeisydd sydd wedi ei awdurdodi o dan reol 6(4)(c) i ddefnyddio disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig, rhaid i'r papur pleidleisio gynnwys, gyferbyn â manylion yr ymgeisydd, un arwyddlun cofrestredig i un o'r pleidiau.

(7) Rhaid i gais yr ymgeisydd o dan baragraff (5) neu (6)—

(a) cael ei wneud mewn ysgrifen i'r swyddog canlyniadau, a

(b) dod i law'r swyddog canlyniadau cyn yr amser olaf ar gyfer danfon papurau enwebu fel y'i nodir yn yr amserlen yn rheol 1.

(8) Rhaid i drefn yr enwau yn y papur pleidleisio fod yr un fath ag yn y datganiad o'r personau a enwebwyd.

### Rhestr rhifau cyfatebol

**23.**—(1) Rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi rhestr ("y rhestr rhifau cyfatebol") yn unol â'r rheol hon.

(2) Rhaid i'r rhestr rhifau cyfatebol fod mewn dwy ran.

(3) Rhaid i Ran 1 gynnwys rhifau a marciau adnabod unigryw yr holl bapurau pleidleisio sydd i'w dyroddi yn unol â rheol 28(1) (papurau pleidleisio post).

(4) Rhaid i Ran 2 gynnwys rhifau (ond nid marciau adnabod unigryw) yr holl bapurau pleidleisio sydd i'w darparu yn unol â rheol 32(1) (darparu blychau pleidleisio a phapurau pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio).

(5) Rhaid i'r rhestr rhifau cyfatebol fod yn y ffurf a nodir yn Atodiad 3 neu ffurf i'r un perwyl.

### Y marc swyddogol

**24.**—(1) Rhaid i bob papur pleidleisio gynnwys marc diogelwch priodol ("y marc swyddogol").

(2) Rhaid cadw'r marc swyddogol yn gyfrinachol.

(3) Rhaid i gyfnod o ddim llai na phum mlynedd fynd heibio rhwng defnyddio'r un marc swyddogol mewn etholiadau ar gyfer yr un sir neu fwrdeistref sirol.

(4) Caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio marc swyddogol gwahanol at ddibenion gwahanol yn yr un etholiad.

### Gwahardd datgelu pleidlais

**25.** Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol i berson sydd wedi pleidleisio yn yr etholiad ddatgan dros bwy y pleidleisiodd mewn unrhyw achos cyfreithiol i amau'r etholiad.

### Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus

**26.**—(1) Caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio unrhyw un neu ragor o'r ystafelloedd a ganlyn yn rhad ac am ddim er mwyn cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau—

(a) ystafell mewn ysgol a gynhelir neu a gynorthwyir gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

(b) ystafell mewn ysgol y mae grantiau'n cael eu rhoi mewn cysylltiad â hi o arian a ddarperir gan Senedd Cymru i'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol;

(c) unrhyw ystafell arall os yw cost cynnal a chadw'r ystafell yn daladwy yn gyfan gwbl neu'n bennaf o arian cyhoeddus.

(2) Pan ddefnyddir ystafell a ddisgrifir ym mharagraff (1) er mwyn cynnal y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau—

(a) cywiro unrhyw ddifrod i'r ystafell sy'n deillio o'i defnyddio at y diben hwnnw, a

(b) talu unrhyw gost a ysgwyddir gan y person neu'r corff sydd â rheolaeth dros yr ystafell oherwydd ei defnyddio at y diben hwnnw.